# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid<br>*Clerk and Chief Financial Officer*<br>**Bethan Roberts**<br>Rhif Ffôn: 01248 602131<br>Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar
**Nos Iau 16 Mehefin 2022 am 18.30**
*cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cyng. David H Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Mair Owen Pierce. **Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Dafydd Roberts a Cyng. Sir Beca Roberts.

2. **Cofnodion**
**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2022.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –** Cynigwyd dyddiadau ym mis Mehefin gan Iwan ap Trefor, ond oherwydd gwyliau ayyb, nid oedd yn bosib cyfarfod ar y dyddiadau hyn. Y Clerc wedi holi am ddyddiadau newydd, disgwyl ymateb.

3.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr –**Y Clerc wedi cysylltu gyda Chris Burgess, Breedon, disgwyl clywed yn ôl.

3.3 **Llwybr Rhif 3 –** Y Clerc wedi holi am diweddariad unwaith eto, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc wedi cynnwys y mater hwn ar y rhestr tystiolaeth diffyg ymateb Cyngor Gwynedd.

3.4 **Arhosfan bws ger Pant yr Ardd –** Y Clerc wedi gwneud cais am linellau melyn eraill yr ochr arall, ond heb dderbyn ymateb. Y Clerc i drafod eto hefo Iwan ap Trefor.

3.5 **Drychau traffig -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lôn Llwybr Main o gyfeiriad Lôn y Grug, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi unwaith eto, gan copio'r Cyng. Beca Roberts yn yr ebost.

3.6 **Lôn y Wern, Tregarth –** Nodwyd y Cyng. Dafydd Roberts fod angen mwy o waith ar y ffordd rhwng Eglwys Gelli a Cororion. Y Clerc wedi holi Iwan ap trefor, ond dim ymateb hyd yn hyn.

3.7 **Diffyg ymateb Cyngor Gwynedd –** Adroddwyd fod y Clerc wedi danfon tystiolaeth at y Prif Weithredwr. Dim ymateb hyd yn hyn.

**3.8 Mainc Pentref Llandyagi –** Nodwyd fod y Cyngor wedi gael caniatad gan Gyngor Gwynedd i osod mainc newydd ym Mhentref Llandygai, ar yr amod ein bod yn ariannu a trefnu a cymryd cyfrifoldeb amdani. Y Clerc i edrych am brisiau.

**3.9 Adra – Ymateb i llythyr Datblygiad Cae Gors** – y Cyngr. Lowri Jones ac Iwan Hywel i danfon cynnwys at y Clerc, er mwyn i'r Clerc lunio llythyr ymateb. Y Clerc i danfon llythyr at y Gweinidog Tai, Julie James AS a Sian Gwenllian AS i godi pwysigrwydd defnyddio deunyddiau lleol a pwysigrwydd lleihau ôl troed carbon.

**3.10 Prydles Ganolfan Tregarth –** Nodwyd fod y Clerc wedi derbyn y ymateb gan yr Adran Eiddo, ond nawr yn disgwyl am gwerth y Ganolfan er mwyn addasu'r yswiriant. Y Clerc i holi eto.

**3.11 Tyfiant ger drych Hendyrnpeg –** Adroddwyd fod y Cyng. Dafydd Owen wedi bod mewn cyswllt a'r adran Priffyrdd, dim gwaith wedi'i gwblhau hyd yn hyn. Nodwyd fod y swyddog perthnasol i ffwrdd o'r gwaith hyd at yr 20fed o Fehefin.

**3.12 Taenlen Gweithredoedd** – Adroddwyd fod y Clerc wedi llunio taenlen gyda gweithredoedd presennol y Cyngor arni. Y Clerc i diweddaru'r daenlen yn fisol ac i gylchredeg cyn pob cyfarfod.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2022'

**Cyflwynwyd**: Ysgol Bodfeurig – Cais am rhodd – Penderfynwyd rhoid rhodd o £750 tuag at datblygu'r ardal tu allan i'r ysgol. (*Cyng. Mary Hayes yn datgan diddordeb)*

**Cyflwynwyd:** Ysgol Tregarth – Cais am rhodd – Penderfynwyd rhoid rhodd o £750 tuag at datblygu'r ardal tu allan i'r ysgol. (*Cyngr. Dafydd Owen, Sian Beidas a Iwan Hywel yn datgan diddordeb)*

**Cyflwynwyd:** YGC – Astudiaeth Parcio ger Llyn Ogwen – Penderfynwyd cefnogi'r cynllun hwn.

**Cyflwynwyd:** Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd – Ymgynghoriad Teithio Llesol – pawb i gwblhau'r holiadur fel unigolion erbyn 8fed o Awst 2022.

**5. Archwiliad Mewnol cyfrifon 2021-22**

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad ac i ymrwymo i roi sylw i'r risgiau nodwyd a chymeryd y camau priodol i'w liniaru. Y Clerc i gynnwys y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor ar agenda y cyfarfod nesaf.

**6. Ffurflen Flynyddol 2021-22**

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

**7. Seddi gwag**

Derbyniwyd dwy gais am seddi yn Ward St Anns. Penderfynwyd cyf-ethol Gareth Williams a Anwen Jones fel Cynghorwyr yn y ward hwn, y Clerc i lunio llythyr cynnig a'i gwahodd i'r cyfarfod nesaf. Y Clerc i hysbysebu'r 3 sedd wag arall eto.

**8. Gwaith y Mis**

**Canolfan Tregarth –** Y Cyng. Dafydd Owen wedi danfon lluniau o tu allan i'r Ganolfan at y Clerc a'r Cadeirydd, y Contractwr i dorri'r gwair a twtio cyn gynted a phosib.

**9. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Canolfan Tregarth –** Adroddwyd y Cyng. Dafydd Owen am y gwelliannau yn y ganolfan. Nodwyd eu bod wedi tynnu ffens ogwmpas yr ysgol Feithrin, ac hoffai'r Cyngor Cymuned wneud cais i Cyngor Gwynedd i gosod y ffens hwn rhnwg y Ganolfan a'r Maes Parcio – y Clerc i drefnu cyfarfod ar y safle gyda adran eiddo Cyngor Gwynedd.

**10. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**10.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mai. Derbyniwyd yr adroddiad.

**11. Taliadau**

Dim.

**12. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/25/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0134/16/LL** | Plot C1, Parc Bryn Cegin, Llandegai<br>Datblygiad cyfleuster tanwydd Bio - nwy naturiol wedi ei gywasgu ar gyfer cerbydau gan gynnwys pympiau tanwydd, cwmpownd cyfarpar offer, creu mynedfeydd newydd, tirlunio a datblygiad cysylltiedig.<br>**Penderfyniad**: Caniatawyd gydag amodau. |
| **C22/0336/16/MW** | Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn<br>Cais ar gyfer estyniad i weithfeydd cloddio llechi<br>**Penderfyniad**: Ar y gweill. |
| **C22/0327/16/AC** | Alfred Mcalpine Slate Products, Chwarel Penrhyn<br>Cais o dan Adran 73 i amrywio amod 1 a 3 ar ganiatâd cynllunio C16/1164/16/MW (Cais o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol) er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2035, ymestyn amser ar gyfer adfer y safle hyd at 2037 a diwygio cynlluniau er mwyn cynnwys estyniad i'r ardal cloddio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C22/0319/16/TC** | Bryn Gwalchmai, Mynydd Llandegai<br>Tystysgrif datblygiad cyfreithlon i gadarnhau y byddai'r bwriad i osod carafán sy'n atodol i amaethyddiaeth yn gyfreithlon ac na fyddai'n gyfystyr â datblygiad y byddai angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd. |
| **C22/0326/16/AC** | Tir ger Cae Gors, Tregarth<br>Cais i ddiwygio amod rhif 2 (yn unol a'r manylion), 3 (llechi naturiol), 12 (cynllun tai fforddiadwy), 14 (argymellion yr arolwg ecolegol rhagarweiniol a chyflwyno cynllun atal llygredd), 18 (samplau o deunyddiau), 19 (cynllun draenio dwr) ac amod 20 (cynllun rheoli'r amgylchedd) o ganiatad cynllunio C21/0617/16/LL parthed codi 12 ty fforddiadwy<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau |
| **C22/0406/16/RA** | Tir ger Cae Gors, Tregarth<br>Cais i ryddhau amod 9 (Cynllun Plannu Coed), 13 (Manylion o'r defnydd o'r iaith Gymraeg) ac 16 (Cynllun Gwelliannau Bioamrywiaeth) o ganiatâd cynllunio C21/0617/16/LL ar gyfer codi 12 tŷ fforddiadwy, mynedfa newydd ynghyd a gwaith cysylltiedig.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **NP3/16/28B** | Tir ger Maes Parcio Ogwen, Nant Ffrancon<br>Hysbysiad o flaen llaw o dan Rhan 24 o'r Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateîr) Gorchymyn 1995 i godi polyn 15m o uchder wedi'i gladio a pren a fyddai'n cefnogi 3 o antenau a 2 o antenau dysgl ynghyd a chypyrddau offer ar y ddaear a'r datblygiadau ategol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0430/16/DT** | Arfon Lôn Y Grug, Mynydd Llandygai<br>Dymchwel rhan o estyniadau presennol a codi estyniad deulawr ar gyfer ystafelloed byw, llofft a ystafell molchi ychwanegol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**13. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

**14. Unrhyw fater brys arall**
**Adroddiad Llais Ogwan –** Y Clerc i lunio adroddiad i gynnwys y rhoddion at yr ysgolion, neuaddau ac y mynwentau. Hefyd, i gynnwys enwau'r ddau Cynghorydd newydd ac i ddiolch i'r rhai sydd wedi sefyll i lawr eleni.